# Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Rhaglen o Archwiliadau Gwerth am Arian

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Hydref 2000**

# Cynnwys


Cyflwyniad

Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian Arfaethedig

Cost Rhaglen Arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol o Astudiaethau Gwerth am Arian

Casgliad

Atodiad A Pynciau posibl ar gyfer archwiliadau gwerth am arian gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Atodiad B Archwiliadau Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy’n cael eu cynnal ar hyn o bryd ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru 22

# Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian

## Cyflwyniad

1. Mae’r memorandwm hwn yn nodi fy rhaglen arfaethedig o archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2001-2002 a’r blynyddoedd wedi hynny. Rhestrir y pynciau posibl i’w harchwilio isod a cheir crynodeb byr o bob astudiaeth yn Atodiad A. Cyn terfynu fy rhaglen o archwiliadau gwerth am arian, buaswn yn croesawu sylwadau a safbwyntiau’r Pwyllgor a byddaf yn rhoi ystyriaeth lawn iddynt wrth bennu fy mlaenoriaethau ar gyfer y rhaglen. Pennwyd fy rhaglen derfynol ar gyfer 1999-2000 a 2000-01 yn dilyn gwaith ymgynghori gyda’r Pwyllgor mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 1999 a nodir cwmpas yr archwiliadau hynny yn Atodiad B.

2. Fel y gwerthfawroga’r Pwyllgor, bydd yr adnoddau a ryddheir gan y Cynulliad yn pennu maint fy rhaglen o archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2001-2002 a’r blynyddoedd wedi hynny. Mae fy Amcangyfrif drafft yn cynnig cyllideb wladol gyson i’m gwaith gwerth am arian, wedi’i phennu ar yr un lefel mewn termau gwirioneddol â 2000-01, a dyma oedd y sylfaen a ddefnyddiais wrth gynllunio fy mlaenraglen.

3. Felly mae’r memorandwm hwn yn gwahodd y Pwyllgor unwaith eto i:

- rhoi arwydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru o’r pynciau sydd o ddiddordeb penodol i’r Aelodau ac i awgrymu unrhyw bynciau eraill na chynhwyswyd yn y rhestr isod a allai gael eu cynnwys yn y rhaglen ar gyfer 2001-02 a blynyddoedd yn y dyfodol; a
- penderfynu ar nifer a natur yr astudiaethau y bydd eu hangen ar y Pwyllgor, a hysbysu’r Cynulliad am y gofyniad ariannol.

## Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian Arfaethedig

4. Nod fy rhaglen arfaethedig o archwiliadau gwerth am arian yw darparu gwaith o faint ac ansawdd digonol i’r Pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol. Byddaf yn parhau i ynhyrchuadroddiadau ar amrywiaeth mor eang â phosibl o bynciau sy’n canolbwyntio ar berfformiad a chanlyniadau, ceisio nodi enghreifftiau o ddefnyddio a rheoli adnoddau yn effeithiol, a dangos sut y gellir gwella perfformiad. Yn hyn o beth dylai fy archwiliadau ddarparu sylfaen i’r Pwyllgor wneud cyfraniad arwyddocaol i’r broses o sicrhau y defnyddir yr adnoddau sydd ar gael i’r Cynulliad yn y ffordd fwyaf effeithiol, y cyflawnir y canlyniadau a fwriadwyd ac y sicrheir y gwerth gorau am arian. Rwyf yn bwriadu ymgymryd â’r gwaith drwy ymgynghori â’r Comisiwn Archwilio yng Nghymru, lle y bo’n briodol, er enghraifft ym meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol a thai. Yn y maes iechyd yn benodol, cynhelir yr holl astudiaethau a gynigir gennyf mewn cydweithrediad â’r Comisiwn Archwilio yng Nghymru neu byddant yn cynnwys cyswllt agos â’r Comisiwn.

5. Wrth lunio fy nghynigion ar gyfer 2001-2002 a thu hwnt, rwyf wedi ystyried yr awgrymiadau a wnaed gan Aelodau'r Pwyllgor hydref y llynedd ond na lwyddais i'w cynnwys yn fy rhaglen ar gyfer 2000-2001. Nodir y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2001-2002 a thu hwnt yn Nhabl 1 yn ôl meysydd cyllideb y Cynulliad ac mae'n gwahaniaethu rhwng yr astudiaethau hynny y cynigiaf y dylai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol weithio arnynt yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002 a'r rheini y gallai ymgymryd â hwy yn ystod 2002-2003 a'r blynyddoedd wedi hynny. Fel y noda Tabl 1, un o'm nodau wrth lunio'r cynigion hyn yw sicrhau y rhoddir cyfle i'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth ar bob categori gwariant y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

6. Yn y Memorandwm a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r memorandwm hwn ar y gwaith gwerth am arian yr ymgymerais ag ef hyd yn hyn, hoffwn dynnu sylw at y cyfnod o amser rhwng dechrau gwaith ar bwnc a chyhoeddi adroddiad wedi'i gwblhau. Felly bydd fy rhaglen ar gyfer y flwyddyn gyfredol, 2000-01, yn dechrau cynhyrchu deunydd i'r Pwyllgor ei ystyried yn ddiweddarach yn ystod yr hydref a byddant yn parhau i ddarparu deunydd i'r Pwyllgor ar gyfer ychydig fisoedd cyntaf y flwyddyn ariannol 2001-02. Caiff y patrwm hwn ei ailadrodd mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Bydd astudiaethau o raglen y flwyddyn nesaf, unwaith y bydd wedi'i therfynu, yn dechrau cael eu cwblhau yn ystod ail hanner 2001-02.

7. Wrth geisio sicrhau cwmpas systemataidd i wariant y Cynulliad, rwyf wedi dadansoddi'r maes archwilio yn ôl categorïau bras o ffocws archwilio mewn perthynas â defnyddio adnoddau. Mae Tabl 1 yn nodi i ba gategori bras y mae pob astudiaeth arfaethedig yn perthyn. Rwyf hefyd wedi ystyried pum amcan, neu faes gweithredu, y Cynulliad, fel yr amlinellwyd yn ei gynllun strategol cyntaf, *Gwell Cymru*. O ganlyniad, mae Tabl 1 hefyd yn dangos prif amcanion y Cynulliad y mae fy astudiaethau arfaethedig yn gysylltiedig â hwy. At hyn rwyf wedi ystyried rhaglen gyflym y Cynulliad i gynnal arolygon bob pum mlynedd o gyrff gweithredol cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad wrth gynllunio'r ffordd y byddaf yn cwmpasu'r sefydliadau hyn dros y blynyddoedd sydd i ddod.

**Tabl 1: Rhaglen archwiliadau gwerth am arian arfaethedig, yn ôl meysydd cyllideb y Cynulliad**

***Allwedd:***

| Categorïau bras o ran **ffocws archwilio**: | Pum prif **amcan** neu faes gweithredu'r Cynulliad: |
|---|---|
| A cyflwyno rhaglenni a gwasanaethau<br><br>B rheoli asedau<br><br>C caffael asedau a gwasanaethau<br><br>D ailddefnyddio a chael gwared ar asedau ac adnoddau | 1 cyfleoedd gwell i ddysgu<br><br>2 economi well, gryfach<br><br>3 gwell iechyd a lles<br><br>4 gwell ansawdd bywyd<br><br>5 llywodraeth well, symlach |

| ***Maes Gwariant*** | ***Ffocws archwilio*** | ***Amcan y Cynulliad*** |
|---|---|---|
| **IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**<br><br>*Gwaith yr ymgymerir ag ef yn ystod y flwyddyn ariannol 2000-2001* | | |
| • Esgeulustod clinigol | A | 3 |
| • Rheoli Ystâd yr NHS yng Nghymru | B, D | 2, 3 |
| • Rhagnodi cyffuriau | A | 3 |
| ***Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*** | | |
| • **Arolwg o wasanaethau glanhau ysbytai** | A | 3 |
| • **Arolwg o wasanaethau arlwyo ysbytai** | A | 3 |
| • **Arolwg o addysg a hyfforddiant nad yw'n feddygol** | C | 1, 3 |
| *Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003* | | |

| | | |
|---|---|---|
| • Arolwg o strategaeth Cymru ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol | A | 3 |
| • Arolwg o Wasanaeth Gwaed Cymru | A | 3 |
| • Arolwg o'r broses gaffael yn yr NHS yng Nghymru | C | 3 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2003-2004 a blynyddoedd wedi hynny* | | |
| • Archwiliad o'r cytundeb PFI ar gyfer ysbyty Baglan | C | 2, 3 |
| • Arolwg o'r gwaith o reoli'r ystâd mewn Ymddiriedolaeth NHS unigol yng Nghymru | B, D | 2, 3 |
| • Rheoli absenoldeb salwch yn yr NHS yng Nghymru | A | 3 |
| • Arolwg o'r trefniadau yng Nghymru ar gyfer ymdrin ag ymgynghorwyr a waherddir ar gyflog llawn | A | 3, 5 |
| • Archwiliad o berfformiad Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru-Gyfan | A | 3 |
| • Ymdrin â'r broblem o drais yn yr NHS | A | 3 |
| • Arolwg o Fenter Gwella Iechyd Cymru | A | 3 |
| • Hybu iechyd yng Nghymru | A | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| **ADDYSG A HYFFORDDIANT** | | |
| *Gwaith yr ymgymerir ag ef yn ystod y flwyddyn ariannol 2000-2001* | | |
| • Rheoli'r Ystâd Addysg Bellach yng Nghymru | B, D | 1 |
| ***Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*** | | |
| • **Adroddiad cynnydd ar gaffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru** | C | 1 |
| • **Rheoli casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru** | A, B | 4 |
| *Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003* | | |
| • Arolwg o'r broses o uno'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach a Chynghorau Hyfforddiant a Menter yng Nghymru | A | 1, 5 |
| • Archwiliad o reoli gwagle yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru | B, D | 1 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2003-2004 ac wedi hynny* | | |
| • Defnyddio grantiau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd yn effeithiol | A | 1 |
| • Archwiliad o'r broses gaffael yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru | C | 1 |
| • Rheoli absenoldeb salwch yn y sector addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru | A | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| • Arolwg o gynllun y Fargen Newydd ar gyfer Ysgolion | A | 1 |
| • Arolwg o’r Grid Dysgu Cenedlaethol | A | 1 |
| **DATBLYGIAD ECONOMAIDD** | | |
| *Gwaith yr ymgymerir ag ef yn ystod y flwyddyn ariannol 2000-2001* | | |
| • Cymorth y WDA i LG | A, D | 2 |
| • Gweinyddu cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd | A | 2, 4 |
| • Dod â Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben | A | 2 |
| ***Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*** | | |
| • **Effeithiolrwydd y gwasanaeth Cyswllt Busnes** | A | 2, 5 |
| *Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003* | | |
| • Astudiaeth ddilynol o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd | A | 2, 4 |
| • Archwiliad o berfformiad y WDA wrth gwrdd â’i dargedau gweithredol | A | 2 |
| *Pynciau posibl i’w cynnwys yn 2003-2004 neu wedi hynny* | | |
| • Astudiaeth ddilynol o weithredu yr Awdurdod Harbwr | A | 2 |
| • Effeithiolrwydd Cymorth Dethol Rhanbarthol yng Nghymru | A | 2 |
| • Rheoli Cronfa Ddatblygu Cyllid Cymru | A | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| • Archwiliad o broject PFI Rhodfa Bute (Rhodfa Lloyd George) | C | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| **YR AMGYLCHEDD, TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIO** | | |
| ***Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*** | | |
| • **Amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru** | A | 4 |
| • **Arolwg o'r rhaglen gwella cefnffyrdd yng Nghymru** | A | 4 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 a blynyddoedd wedi hynny* | | |
| • Arolwg o effaith ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru | A | 3, 4 |
| • Arolwg o weithrediadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru | A | 4 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2003-2004 a wedi hynny* | | |
| • Arolwg o Fenter Amgylchedd Cymru | A | 4 |
| • Archwiliad o weinyddu'r Grant Trafnidiaeth | A | 4 |
| **AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG**<br><br>***Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*** | | |
| • **Arolwg o'r cynllun premiwm blynyddol defaid** | A | 2 |
| *Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003* | | |
| • Y project Jigsaw | A | 2, 5 |

| | | |
|---|---|---|
| • Arolwg o weithredu Tir Gofal a'i effaith gychwynnol | A | 4 |
| • Archwiliad o'r cynllun iawndal defaid | A | 2, 3 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2003-2004 a wedi hynny* | | |
| • Arolwg o'r Cynllun Taliadau Ardaloedd Âr | A | 2 |
| • Arolwg o Tir Mynydd | A, D | 2 |
| **LLYWODRAETH LEOL A THAI**<br><br>*Gwaith yr ymgymerir ag ef yn ystod y flwyddyn ariannol 2000-2001* | | |
| • Digartrefedd | A | 4, 5 |
| *Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003 neu wedi hynny* | | |
| • Gweithrediadau Is-adran Tai y Cynulliad | A | 4, 5 |
| • Trosglwyddo stoc tai cyngor | A | 5 |
| **GWEINYDDU'R CYNULLIAD**<br><br>*Gwaith yr ymgymerir ag ef yn ystod y flwyddyn ariannol 2000-2001 (a ddechreuwyd yn 1999-00)* | | |
| • Trefniadau adeiladau'r Cynulliad | B, C | 5 |
| ***Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*** | | |
| • **Arolwg o strategaeth TG a threfniadau caffael y Cynulliad** | C | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| *Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003 neu wedi hynny* | | |
| • Archwiliad o systemau rheoli perfformiad y Cynulliad | A | 5 |
| • Y Llywodraeth ar y we yng Nghymru | A | 5 |
| **ARALL**<br><br>Byddaf yn parhau i ddarparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor wedi'u paratoi gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn rhoi crynodeb o'u gwaith | | |

8. Er fy mod yn anelu at ddarparu pecyn o astudiaethau i'r Pwyllgor sy'n cwmpasu meysydd gwariant, prif amcanion a gwahanol fathau o ffocws archwilio y Cynulliad, mae'r arian sydd ar gael i mi yn golygu y bydd fy rhaglen derfynol hefyd yn cynnwys cymysgedd o astudiaethau o ran cwmpas a dyfnder. Fel y nodais y llynedd, gellir ymdrin â rhai meysydd archwilio ar lefel resymol uchel, ac o ganlyniad ceir adroddiad mwy cryno a fyddai'n darparu sylfaen i'r Pwyllgor gynnal cyfarfod effeithiol iawn; enghraifft o hyn yw fy adroddiad ar gymorth Awdurdod Datblygu Cymru i fusnesau cynhenid yng Nghymru. Mae pynciau eraill yn gofyn am ymagwedd ehangach a manylach, gan gynnwys, er enghraifft, rhaglen o ymweliadau â sefydliadau; mae'r categori hwn o astudiaethau yn fwy tebygol o arwain at enghreifftiau o arfer da ac arbedion ariannol posibl. Ymhlith yr enghreifftiau o raglen eleni mae astudiaeth o reoli ystadau yn y sector Addysg Bellach a'r NHS, ac esgeulustod clinigol. Nid yw categoreiddio astudiaethau gwerth am arian yn y fath fodd yn fanwl gywir ac enghreifftiau yn unig a geir uchod. Ond ar y lefel o ariannu arfaethedig, byddaf yn anelu at gynnwys o leiaf dwy astudiaeth sy'n perthyn i'r ail gategori sy'n fanylach ac yn ehangach.

9. Yn dilyn dyfarnu arian Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd i rannau o Gymru, gallai'r wlad elwa ar wariant cyhoeddus cynyddol o tua £1.3 biliwn dros y blynyddoedd nesaf. Yn naturiol mae'r budd i'r cyhoedd o reoli a gweinyddu'r arian hwn yn gywir yn uchel iawn. Caiff y pwnc hwn ei archwilio yn fy rhaglen ar gyfer eleni. Bydd yr astudiaeth gyntaf hon yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r ffordd y gweinyddwyd rhaglenni cronfeydd strwythurol mwyaf diweddar yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, gyda'r bwriad o nodi sut y gellir cael y budd mwyaf posibl o'r rhaglen newydd. Rwyf yn bwriadu dychwelyd at y pwnc hwn ar ôl tua 18 mis, yn 2002-03, i asesu'r cynnydd yn erbyn canfyddiadau'r astudiaeth gyntaf. Ac mae pwysigrwydd amlwg yr arian yn golygu y gallai ddod i'r amlwg fel rhan o'm gwaith mewn meysydd eraill, ar yr ochr archwilio ariannol yn ogystal ag yn fy ngwaith gwerth am arian.

10. Wrth gynllunio fy rhaglen gyffredinol ar gyfer archwiliadau gwerth am arian, rwyf yn cydnabod y gallai fod datblygiadau arwyddocaol nas rhagwelwyd yn y meysydd gwariant y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Yn yr amgylchiadau hyn, byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad gan dynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio at faterion sy'n peri pryder penodol. Yn yr un modd, byddaf yn cyflwyno adroddiad ar unrhyw achosion o dwyll, lladrad, llygredd neu anwedduster a allai ddod i'r amlwg. Pe byddai angen cynhyrchu adroddiad o'r math hwn heb ei gynllunio, mae'n bosibl y bydd angen gohirio rhannau o'm rhaglen arfaethedig am rai misoedd gan y bydd

angen aros o fewn y dyraniad o arian a rydd y Cynulliad ar gyfer fy archwiliadau gwerth am arian, er y buaswn yn anelu at gadw unrhyw effeithiau o'r math hwn i'w hisafswm. Yn ogystal â'r rhaglen waith arfaethedig hon, byddaf hefyd yn ymateb yn gadarnhaol i bob cais am wybodaeth neu gyngor gan y Pwyllgor hyd yn oed yn y meysydd hynny nad oes gennyf hawliau mynediad eang iddynt.

11. Fel rhan o'r gwasanaeth a ddarpara i mi fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn monitro datblygiadau yng ngweithgareddau'r Cynulliad ac yn adolygu ei gwmpas gwerth am arian er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i newid, blaenoriaethau newydd a phryderon newydd wrth i gwmpas yr archwiliadau gael ei ddatblygu. Yn ei dro bydd hyn yn galluogi i mi roi cyfres ddiwygiedig, wedi'i diweddaru o gynigion ar gyfer astudiaethau i'w cynnwys yn y blaenraglen ar gyfer fy archwiliadau gwerth am arian i'r Pwyllgor. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn ategu'r astudiaethau hyn drwy fonitro mentrau yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol ar fy rhan er mwyn nodi unrhyw agweddau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru a'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, datblygu'r Agenda Moderneiddio Llywodraeth a chynnydd wrth weithredu prosesau mesur perfformiad yn y sector cyhoeddus.

## Cost Rhaglen Arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol o Astudiaethau Gwerth am Arian

12. Fy nhybiaeth barhaus o ran y galw am fy ngwaith gwerth am arian, ac yn sgîl hynny y maint o waith, yw y bydd y Pwyllgor yn debygol o ystyried fy adroddiadau gwerth am arian ar o leiaf saith achlysur y flwyddyn. Felly byddaf yn parhau i ddarparu deunydd digonol i'r Pwyllgor ar gyfer y nifer hwn o gyfarfodydd yn ogystal â rhywfaint o ddeunydd ychwanegol i roi rhywfaint o ddewis i'r Pwyllgor o ran yr hyn y gallai ei ystyried. Fel yr amlinellir uchod, mae lefel yr arian rwyf yn ei chynnig - yr un lefel, mewn termau gwirioneddol, ag yn 2000-01 - yn golygu y bydd fy rhaglen yn cynnwys cymysgedd o rai arolygon lefel uchel, rhai archwiliadau eang a rhai ymchwiliadau manylach. Byddaf yn sicrhau bod pob un o'm hadroddiadau o gwmpas a dyfnder sy'n briodol i'r pwnc sy'n cael ei archwilio, fel eu bod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol, yn ychwanegu gwerth, ac yn helpu'r Pwyllgor i gyflawni effaith fesuradwy cyn gynted â phosibl, gan gynnwys sicrhau arbedion ariannol. Wrth gwrs byddai unrhyw ostyngiad yn y gyllideb yn cyfyngu ar fy ngallu i gyflwyno maint a dyfnder fy archwiliadau arfaethedig.

## Casgliad

13. Gwahoddir y Pwyllgor i:

- rhoi arwydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r pynciau sydd o ddiddordeb penodol i'r Aelodau ac i awgrymu unrhyw bynciau eraill na chynhwyswyd yn y rhestr isod a allai gael eu cynnwys yn y rhaglen ar gyfer 2001-02 a blynyddoedd yn y dyfodol; a
- penderfynu ar nifer a natur yr astudiaethau y bydd eu hangen ar y Pwyllgor, a hysbysu'r Cynulliad am y gofyniad ariannol.

**John Bourn**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*19 Hydref 2000*

Atodiad A

# Pynciau posibl ar gyfer archwiliadau gwerth am arian gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*

**1. Arolwg o wasanaethau glanhau ysbytai**

Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach eleni gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar heintiau a geir mewn ysbytai wedi pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau glanhau effeithiol. Canfu'r adroddiad hwnnw fod heintiau a ddaliwyd mewn ysbytai yn gyfrifol am hyd at 5,000 o farwolaethau y flwyddyn a'u bod yn costio £1 biliwn i'w trin. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried effeithiolrwydd gwasanaethau glanhau yn yr NHS yng Nghymru, a ph'un a ydynt yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian.

**2. Arolwg o wasanaethau arlwyo ysbytai**

Yn ôl Sefydliad Maeth Prydain, mae gwasanaethau arlwyo ysbytai mor wael fel bod rhai cleifion yn dioddef o ddiffyg maeth clinigol yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. A chaiff hyd at 40 y cant o brydau bwyd yr NHS eu taflu. Bydd yr astudiaeth yn ystyried yr ymdrechion sy'n mynd rhagddynt yn yr NHS yng Nghymru i ddarparu bwyd cost effeithiol, maethlon.

**3. Addysg a Hyfforddiant nad yw'n Feddygol**

Mae addysg a hyfforddiant nyrsys a phobl broffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â meddygaeth yn ffactor allweddol wrth sicrhau addasrwydd gweithlu'r NHS yng Nghymru. Yng Nghymru, daeth costau addysg a hyfforddiant nad yw'n feddygol ym 1998-99 i gyfanswm o tua £40 miliwn. Cynhelir yr astudiaeth mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio a chaiff ei chysylltu ag astudiaeth debyg yn Lloegr. Bydd yn canolbwyntio ar gynllunio gweithlu, comisiynu a chontractio ar gyfer materion sy'n ymwneud ag addysg a sicrwydd ansawdd.

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003*

**4. Strategaeth Cymru ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol**

Dyrannwyd cyfanswm o £1.1 miliwn i gynnal y rhaglen hon yn 2000-01. Er mwyn i'r strategaeth gael ei gweithredu'n effeithiol mae angen i wahanol asiantaethau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol gydweithio. Bydd yn cynnwys sefydlu Uned Cyffuriau ac Alcohol Cymru, ariannu cynlluniau sector gwirfoddol, datblygu deunydd cyhoeddusrwydd a datblygu systemau i fesur effaith y strategaeth. Bydd yr astudiaeth yn adolygu cynnydd.

**5. Gwasanaeth Gwaed Cymru**

Gyda gwariant o tua £12 miliwn y flwyddyn, Gwasanaeth Gwaed Cymru yw'r unig gorff statudol sy'n casglu a chyflenwi gwaed yng Nghymru (ac eithrio Gogledd Cymru sy'n cael ei waed o'r Awdurdod Gwaed Cenedlaethol, y corff sy'n casglu ac yn cyflenwi gwaed yn Lloegr). Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar p'un a yw Gwasanaeth Gwaed Cymru yn diwallu gofynion ysbytai a pha gamau y mae'n eu cymryd i wella ei berfformiad.

**6. Y broses gaffael yn yr NHS yng Nghymru**

Bob blwyddyn mae Awdurdodau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru yn gwario tua £300 miliwn ar nwyddau a gwasanaethau. Bydd yr astudiaeth hon yn asesu pa mor dda y caiff swyddogaeth caffael yr NHS yng Nghymru ei rheoli i sicrhau y defnyddir adnoddau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Hon fyddai'r astudiaeth gyntaf mewn cyfres o adroddiadau ar y pwnc pwysig hwn.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2003-2004 a'r blynyddoedd wedi hynny*

**7. Archwiliad o'r cytundeb PFI yn ysbyty Baglan**

Y cynllun i ddarparu ysbyty newydd gwerth £66 miliwn, Ysbyty Castell Nedd Port Talbot, i'w adeiladu a'i redeg gan Gofal Iechyd Baglan Moor ccc ar ran Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg, yw'r cynllun PFI mwyaf hyd yn hyn i gael ei gyflwyno yng Nghymru. Bwriedir i'r ysbyty ddarparu 270 o welyau, cyfleusterau i gleifion allanol ac ysbyty dydd, gofal adsefydlu a lliniarol, ac amrywiaeth llawn o wasanaethau diagnostig. Bydd uned iechyd meddwl hefyd yn yr ysbyty. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Mehefin 2000 a disgwylir i'r ysbyty dderbyn ei gleifion cyntaf yn ystod hydref 2002. Bydd yr astudiaeth arfaethedig yn archwilio pa mor gadarn y bu'r Ymddiriedolaeth a'r Cynulliad wrth benderfynu bod y cytundeb PFI yn cynrychioli gwerth da i'r trethdalwr a pha mor llwyddiannus y bu'r Ymddiriedolaeth a'r consortiwm adeiladu wrth reoli cyfnod adeiladu'r project.

**8. Rheoli ystâd mewn Ymddiriedolaeth NHS unigol yng Nghymru**

Byddai'r astudiaeth hon yn dilyn yr astudiaeth a amlinellir uchod a fydd yn ystyried y broses o reoli ystadau yn yr NHS yng Nghymru yn gyffredinol. Y nod fyddai defnyddio ymagwedd astudiaethau achos i nodi agweddau ar arfer da y gellir eu cymhwyso ymhob Ymddiriedolaeth yng Nghymru i ddefnyddio tir ac adeiladau yn fwy effeithlon ac effeithiol a thrwy hyn nodi a chael gwared ar dir ac adeiladau nad oes eu hangen.

**9. Rheoli absenoldeb salwch yn yr NHS yng Nghymru**

Mae gwaith yn y gorffennol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi dangos y buddiannau gweithredol a all ddeillio o reoli absenoldeb salwch yn effeithiol - maes lle y gwelir perfformiad gwael gan y sector cyhoeddus yn y gorffennol. Byddai'r astudiaeth hon yn ategu astudiaeth debyg a ragwelir ar gyfer y sector addysg.

**10. Gwahardd ymgynghorwyr ar gyflog llawn**

Bu nifer o achosion yn ddiweddar o ymgynghorwyr o fewn yr NHS yn cael eu gwahardd am nifer o flynyddoedd ar gyflog llawn. Roedd yr achos diweddaraf yn ymwneud â Bernard Charnley a gafodd ei ailbenodi gan Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg yn dilyn pedair blynedd wedi'i wahardd ar gyflog llawn. Bydd yr astudiaeth yn ystyried a yw'r ffordd y caiff yr achosion hyn eu trin yn cynrychioli gwerth am arian.

**11. Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru-Gyfan**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru-Gyfan ar 1 Ebrill 1998 drwy uno'r pedair ymddiriedolaeth ambiwlans a fu'n gwasanaethu Cymru cyn hynny. Ym 1998-1999, £61 miliwn oedd incwm yr Ymddiriedolaeth a gwariodd gyfanswm o £58 miliwn. Roedd yn cyflogi 2000 o aelodau o staff ac roedd ganddi asedau sefydlog werth tua £28 miliwn. Bydd yr astudiaeth yn adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth.

**12. Trais yn yr NHS yng Nghymru**

Mae nifer yr achosion o drais yn ysbytai'r NHS wedi bod yn cynyddu yn ddiweddar. Ar ddechrau 1999 ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd at bob un o Gadeiryddion Ymddiriedolaethau NHS ac Awdurdodau Iechyd yng Nghymru yn gofyn iddynt ystyried sut i weithredu i nodi ac ymdrin â phroblemau yn ymwneud â thrais. Byddai'r astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd y mesurau ataliol a gymerir gan yr NHS yn erbyn achosion o drais.

**13. Menter Gwell Iechyd Cymru**

Ym mis Mehefin 1997, cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig gyfres o 15 o Dargedau Gwella Iechyd. Roedd y targedau yn cynnwys, er enghraifft, marwolaethau cynnar o rai canserau, afiechyd y galon a strôc, babanod a enir â phwysau isel, a dolur cefn a chryd cymalau. Gosodwyd y rhan fwyaf o'r targedau i'w cyflawni erbyn 2002. Dengys canlyniadau diweddaraf gwaith monitro (ar gyfer 1997), ar gyfer yr holl dargedau yn seiliedig ar gyfraddau marwolaeth, fod Cymru yn cymharu'n wael â Lloegr. Byddai'r astudiaeth yn asesu trefniadau monitro ac yn disgrifio'r cynnydd a wnaed wrth gwrdd â'r 15 o dargedau.

**14. Hybu iechyd yng Nghymru**

Mae'r Cynulliad yn bwriadu gwario tua £3 miliwn y flwyddyn erbyn 2001-02 ar hybu iechyd fel rhan o'i agenda i wella un o'r problemau sylfaenol yng Nghymru, sef iechyd gwael, drwy addysg a dulliau atal. Mae gan y Cynulliad strategaeth genedlaethol ar gyfer hybu iechyd a lles sy'n darparu cyfeiriad a fframwaith i sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gyfrannu at ymagwedd gydlynus a chynaladwy. Mae'r Cynulliad hefyd yn anelu at roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i bobl Cymru er mwyn iddynt wneud dewisiadau hyddysg a thrwy hyn gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Bydd yr astudiaeth arfaethedig yn archwilio cynnydd wrth weithredu strategaeth hybu iechyd y Cynulliad a llwyddiant mentrau penodol ar addysg iechyd ac atal afiechydon.

Noder: byddai pob astudiaeth yn y maes hwn yn cael eu cynnal mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio neu byddent yn cynnwys cyswllt agos â'r Comisiwn.

## Addysg a Hyfforddiant

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*

**1. Adroddiad cynnydd ar gaffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru**

Byddai'r astudiaeth hon yn dilyn yr adroddiad ar Addysg Bellach yng Nghymru a gyhoeddwyd gan y Swyddfa

Archwilio Genedlaethol ym mis Gorffennaf 1999, ac Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd ym Mehefin 2000. Byddai'n asesu i ba raddau y mae'r sector yn ystyried yr enghreifftiau o arfer da a nodwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Byddai hefyd yn archwilio sut mae'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach yn annog arferion caffael gwell yn y sector.

**2. Rheoli casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

Amcangyfrifir y bydd gwariant gros Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn 2000-01 yn £15.6 miliwn. Un o amcanion allweddol y sefydliad yw cadw, gwarchod a dogfennu'r casgliadau i'r safonau priodol. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y graddau y bodlonir yr amcan hwn, yn ogystal ag ymgorffori i ba raddau y rhoddir mynediad priodol i'r cyhoedd i'r casgliadau.

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003*

**3. Creu Cyngor Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Bydd Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru a'r pedwar Cyngor Hyfforddiant a Menter yng Nghymru yn uno ar 1 Ebrill 2001, i lunio corff newydd, Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y gwaith o reoli'r broses uno ac effeithiolrwydd y trefniadau newydd ar gyfer cyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**4. Rheoli gwagle yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru**

Ym 1996, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad ar Reoli Gwagle mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Amlygodd yr adroddiad hwn y cyfleoedd sylweddol i sefydliadau wella'r defnydd o'u hystadau drwy gymhwyso technegau rheoli gwagle mwy effeithiol. Bydd yr astudiaeth yn dilyn canfyddiadau'r adroddiad cynharach hwn i weld pa gynnydd a wnaed gan sefydliadau addysg uwch i ddefnyddio eu hadeiladau presennol yn well, a thrwy hyn sicrhau'r buddiannau posibl i'r sector.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2003-2004 a blynyddoedd wedi hynny*

**5. Defnyddio grantiau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd (GCAH) yn effeithiol**

Mae gan y grantiau hyn gyfanswm cyllideb flynyddol o £50.6 miliwn ar gyfer 2000-2001, y mae tua 60% ohono yn gymorth grant gan y Cynulliad. Gweinyddir y cynllun i ysgolion gan awdurdodau addysg lleol, ac mae'n gweithredu o dan 19 o benawdau gweithgaredd a chanddynt gyllidebau ar wahân sy'n adlewyrchu blaenoriaethau addysgol y Cynulliad. Ymhlith y gweithgareddau hyn mae cymorth wedi'i dargedu i lythrennedd, rhifedd ac anghenion addysgol arbennig. Bwriedir i'r grantiau hyn ddarparu hyfforddiant a chymorth effeithiol i gyflawni gwell canlyniadau addysgol.

**6. Caffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru**

Gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddatblygwyd ar gyfer y sector Addysg Bellach, byddai'r astudiaeth hon yn asesu i ba raddau y defnyddir arferion caffael da gan sefydliadau yn y Sector Addysg Uwch.

**7. Rheoli absenoldeb salwch mewn addysg uwch a phellach yng Nghymru**

Mae gwaith yn y gorffennol gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol wedi dangos y buddiannau gweithredol a all gronni yn sgîl rheoli absenoldeb salwch yn effeithiol - maes lle y cafwyd perfformiad gwael gan y sector cyhoeddus yn y gorffennol. Byddai’r astudiaeth hon yn ategu astudiaeth debyg a ragwelir ar gyfer yr NHS yng Nghymru.

**8. Arolwg o gynllun y Fargen Newydd ar gyfer Ysgolion**

Mae cynllun y Fargen Newydd ar gyfer Ysgolion yn ariannu projectau cyfalaf a gymeradwywyd i atgyweirio adeiladau ysgolion, gwella diogelwch a darparu technoleg CAD-CAM mewn ysgolion. Caiff y projectau eu dethol a’u gweinyddu gan awdurdodau addysg lleol, sy’n adennill yr holl gostau gan y Cynulliad. Mae cyllideb o £64 miliwn gan y cynllun dros ei oes o bum mlynedd a bwriedir iddo ddod i ben ar 31 Mawrth 2002. Byddai’r astudiaeth yn ystyried llwyddiant y cynllun wrth fodloni ei amcanion.

**9. Arolwg o’r Grid Dysgu Cenedlaethol**

Rhwydwaith gwybodaeth cyfrifiadurol i ysgolion yw’r Grid Dysgu Cenedlaethol, y gellir cael mynediad iddo drwy’r Rhyngrwyd. Amcan y cynllun yw darparu ffocws ac agenda cenedlaethol ar gyfer harneisio technolegau newydd i godi safonau addysgol, yn arbennig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae grantiau ar gael drwy’r rhaglen GCAH (gweler uchod) i ddarparu offer TG, hyfforddiant, gwasanaethau a meddalwedd i sicrhau y gall pob ysgol wneud defnydd effeithiol o’r Grid. Y nod yw sicrhau bod gan bob ysgol fynediad i’r Grid erbyn 2001, er bod y cynllun ei hun yn gweithredu tan ddiwedd mis Mawrth 2002. Mae cyllideb o £4 miliwn gan y cynllun ar gyfer 2000-01 a disgwylir iddo gostio £14 miliwn dros ei oes o bedair blynedd. Byddai’r astudiaeth yn archwilio’r ffordd y gweithredwyd y rhaglen a’i heffeithiolrwydd wrth fodloni ei amcanion.

## Datblygiad Economaidd

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*

**1. Effeithiolrwydd y gwasanaeth Cyswllt Busnes**

Gwasanaeth ffôn a Rhyngrwyd yw Cyswllt Busnes sy’n darparu un pwynt mynediad i fusnesau i’r amrywiaeth llawn o wasanaethau cymorth busnes sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr amcan yw darparu cyngor a gwybodaeth busnes arbenigol, gwrthrychol i’r sawl sy’n ffonio am y gwasanaethau sydd ar gael, ac os bydd angen, eu cyfeirio at ffynonellau cymorth arbenigol. Rheolir y gwasanaeth gan Cyswllt Busnes Cymru Cyf, a fydd yn derbyn £2.5 miliwn gan y Cynulliad yn 2000-01. Mae’r cwmni yn derbyn cymorth gweithredol gan y WDA ac yn contractio gyda phedwar consortiwm rhanbarthol i ddarparu cyngor a chymorth i fusnesau sy’n ffonio. Byddai’r astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd y rhaglen wrth gyflawni ei amcan.

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003*

**2. Astudiaeth ddilynol ar gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd**

Nod yr astudiaeth hon fyddai ystyried a oedd y gwaith o reoli'r rhaglen wedi ystyried yr astudiaeth a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol eleni. Byddai'n cael ei hamserlennu i ganiatáu cyfnod digonol ar gyfer cymryd unrhyw gamau adfer angenrheidiol cyn i'r rhaglen gael ei gwerthusiad allanol hanner ffordd drwyddi; yn dibynnu ar ganfyddiadau'r arolwg hwn, gallai'r rhaglen fod yn gymwys i gael cronfa perfformiad wrth gefn o 4 y cant, werth tua £50 miliwn.

**3. Awdurdod Datblygu Cymru**

Bydd yr astudiaeth hon yn dilyn archwiliad cyfredol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o greu Awdurdod Datblygu Cymru mwy o faint. Bydd yr Awdurdod yn destun arolwg bob pum mlynedd yn ystod 2000-2001. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar berfformiad yr Awdurdod, yn benodol i ba raddau y mae wedi cyflawni ei dargedau.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2003-2004 neu flwyddyn wedi hynny*

**4. Astudiaeth ddilynol ar weithredu yr Awdurdod Harbwr**

Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar reoli Bae Caerdydd gan yr Awdurdod Harbwr ar ôl i'r trefniadau newydd gael rywfaint o amser i ymsefydlu.

**5. Effeithiolrwydd Cymorth Dethol Rhanbarthol yng Nghymru**

Cymorth Dethol Rhanbarthol yw'r prif ffurf o gymorth ariannol sector cyhoeddus sydd ar gael i ddiwydiant i gwmpasu buddsoddiad a thwf yng Nghymru. Telir grantiau i gwmpasu rhan o gost projectau cyfalaf sy'n creu swyddi mewn ardaloedd sy'n cael cymorth ac maent wedi'u cyfyngu i'r swm sy'n ofynnol i'r projectau fynd rhagddynt; maent hefyd yn amodol ar derfynau dwysedd cymorth a osodir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Cost y cynllun oedd £45 miliwn ym 1999-2000 a cheir darpariaeth o £63 miliwn ar gyfer 2000-01. Ailstrwythurwyd y cynllun ym mis Gorffennaf 2000 gyda chymeradwyaeth ardaloedd newydd sy'n cael cymorth gan y Comisiwn Ewropeaidd. Telir RSA yn aml ochr yn ochr â chymorth gan gyrff sector cyhoeddus eraill fel y WDA. Byddai'r astudiaeth felly yn canolbwyntio ar rôl RSA yng nghyd-destun ehangach cymorth busnes a datblygu economaidd yng Nghymru. Gallai hefyd ystyried materion penodol o ddiddordeb, er enghraifft yr effaith ar ardaloedd o flaenoriaeth (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd), mewnfuddsoddi a busnesau bach.

**6. Cronfa Ddatblygu Cyllid Cymru**

Cynllun newydd yw'r gronfa a fydd yn darparu benthyciadau a chyfalaf ecwiti i fusnesau bach a chanolig eu maint yn ardaloedd Amcan 1. Y nod yw helpu busnesau â'r potensial i fod yn hyfyw na allant godi cyfalaf digonol yn y sector preifat oherwydd eu maint, proffil risg neu ddiffyg profiad rheoli. Gweinyddir y cynllun gan Cyllid Cymru Cyf, un o is-gwmnïau Awdurdod Datblygu Cymru, ac fe'i ariennir ar y cyd gan y sector preifat (55 y cant) ac arian Amcan 1 gan yr Undeb Ewropeaidd (45 y cant). Mae'r cynnig cyfredol yn cynnwys cyfres o gronfeydd hyd at gyfanswm o £51.8 miliwn, a fydd yn hunan-ariannol. Telir y benthyciadau cyntaf cyn diwedd blwyddyn ariannol 2000-01, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd. Byddai'r astudiaeth yn archwilio'r gwaith o weithredu'r cynllun, ei berfformiad ariannol

ac i ba raddau y mae wedi bodloni ei amcanion.

**7. Project PFI Rhodfa Bute**

Mae cynllun PFI Rhodfa Bute yn cynnwys adeiladu ‘boulevard’ â naws gyfandirol i gysylltu canol dinas Caerdydd â’r glan d•r ac ailddatblygu’r tir y naill ochr iddo. Llofnododd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd Gytundeb Termau gyda City Link ac amcangyfrifir mai £45 miliwn fydd cost cyfalaf y cynllun. Yn dilyn dod â’r Gorfforaeth i ben ym mis Mawrth 2000, derbyniodd Awdurdod Datblygu Cymru gyfrifoldeb dros y cynllun hwn. Bydd yr astudiaeth yn ystyried y camau a gymerwyd i sicrhau gwerth am arian, gan gynnwys y trefniadau rhannu risg gyda’r sector preifat, ac yn gwerthuso a yw’r cynllun yn cyflawni’r adfywiad economaidd a ragwelwyd.

## Yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chynllunio

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*

**1. Amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru**

Mae’r Cynulliad yn cefnogi mesurau sy’n amgylcheddol dderbyniol ac y gellir eu cyfiawnhau yn economaidd yn erbyn erydiad gan y môr a llifogydd drwy gynorthwyo Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, awdurdodau lleol a byrddau draenio mewnol. Er enghraifft, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn bwriadu gwario £12.1 miliwn ar waith amddiffyn rhag llifogydd yn ystod 1999-2000. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar gynllunio a rheoli’r rhaglen ar gyfer draenio prifrwydweithiol, amddiffyn rhag llifogydd a diogelu’r arfordir.

**2. Gwella cefnffyrdd yng Nghymru**

Mae’r Cynulliad yn uniongyrchol gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru, sy’n werth tua £7 biliwn. Mae’r gyllideb ar gyfer gwella’r rhwydwaith - yn wahanol i waith cynnal a chadw - yn £34 miliwn yn 2000-01. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar gynllunio a rheoli’r rhaglen hon.

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn 2002-2003*

**3. Diogelwch ar y Ffyrdd**

Amcan gwario ar ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru yw annog cyflawni gostyngiad o draean yn nifer y bobl a gaiff eu hanafu ar y ffyrdd erbyn y flwyddyn 2000, yn seiliedig ar gyfartaledd lefel y bobl a anafwyd dros y cyfnod o 1981 i 1985. Ym 1997, roedd nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu’n ddifrifol o ganlyniad i ddamwain ffordd yng Nghymru 50.6 y cant yn is na gwaelodlin 1981-85. Gwrthbwyswyd hyn gan gynnydd yn nifer y bobl a anafwyd ac o ganlyniad roedd cyfanswm nifer y bobl a anafwyd ym 1997 2.7 y cant yn uwch na chyfartaledd 1981-85. Mae strategaethau a chynlluniau newydd wrthi’n cael eu datblygu ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru a bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar eu gweithredu a’u heffaith gychwynnol.

**4. Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Y Cyngor yw’r ymgynghorydd statudol ar faterion sy’n ymwneud â chadwraeth natur a chefn gwlad. Yn ystod 2000-01 bydd yn derbyn £33 miliwn o grant mewn cymorth gan y Cynulliad. Nod y Cyngor yw bodloni cyfres o

dargedau ar gyfer ei waith. Bydd y Cyngor yn destun arolwg bob pum mlynedd yn 2000-2001. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar berfformiad y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cwrdd â'i dargedau.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2003-2004 a blynyddoedd wedi hynny*

**5. Menter Amgylchedd Cymru**

Rheolir Amgylchedd Cymru ar ran y Cynulliad gan Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru ac yn ystod 2000-01 bydd yn gwario tua 0.7 miliwn ar brojectau a grantiau. Amcan y rhaglen hon yw cynnal gweithredu gwirfoddol sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaladwy drwy helpu i wella a diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar pa mor dda y caiff y fenter ei gweinyddu.

**6. Gweinyddu'r Grant Trafnidiaeth**

Y Grant Trafnidiaeth yw'r prif ffynhonnell o grant cyfalaf i gynlluniau trafnidiaeth mawr gan awdurdodau lleol. Yn 2000-01 cefnogir grantiau o £47 miliwn. Mae'r grantiau yn darparu cymorth i gynlluniau ffyrdd sy'n costio mwy na £5 miliwn, pecynnau trafnidiaeth integredig - gan gynnwys y rheini sy'n cynnwys y rheilffyrdd - sy'n costio dros £1 miliwn a mentrau llwybr diogel i'r ysgol. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar reoli a gweinyddu'r cynllun.

## Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-2002*

**1. Cynllun premiwm blynyddol defaid**

Diben y cynllun premiwm blynyddol defaid yw digolledu cynhyrchwyr am y graddau y mae'r pris ar gyfer cig defaid ar gyfartaledd yn syrthio islaw'r pris sylfaenol a bennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Yn 1999-2000 £93.1 miliwn oedd y ddarpariaeth ar gyfer y cynllun. Ariennir y cynllun yn llwyr gan y Comisiwn Ewropeaidd, ond gall methu â chydymffurfio â rheoliadau ac arweiniad ar reolaeth ariannol gadarn olygu gostyngiad yn ad-daliad y Comisiwn; ym 1993-96 roedd y gost yn sgîl hyn yn £29.2 miliwn, mwy na Lloegr na'r Alban a chyfanswm o tua 5.8 y cant o'r taliadau. Byddai'r astudiaeth yn adeiladu ar adroddiad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Mawrth 2000 a oedd yn ystyried ansawdd gweinyddu'r cynllun yn Lloegr.

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003*

**2. Project Jigsaw**

Mae'r Cyd-Fenter ar gyfer Gwasanaethau Llywodraethol ledled Cymru (Jigsaw) yn rhaglen tair blynedd gwerth £16 miliwn a lansiwyd ym mis Ebrill 1999, wedi'i hanelu at wella'r ffordd y caiff CAP ei weinyddu yng Nghymru, gwella'r broses o gyflwyno gwasanaethau a lleihau costau rhedeg. Ei nod yw dod â gwasanaethau llywodraethol ynghyd yng Nghymru wledig o dan y rhwydwaith o swyddfeydd lleol hygyrch sy'n bodoli eisoes, gan ddarparu gwasanaeth siop un cam effeithiol i ffermwyr ac eraill mewn ardaloedd gwledig. Bydd yr astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd y project hwn sy'n sylfaen bwysig ar gyfer gweithredu cynlluniau pellach.

**3. Tir Gofal**

Amcan Tir Gofal, a ddechreuwyd yn y flwyddyn ariannol 1999-2000 yw annog arferion amaethyddol a fydd yn helpu i ddiogelu a chyfoethogi tirlun a bywyd gwyllt cefn gwlad Cymru. Mae hefyd yn ceisio creu cyfleoedd pellach i bobl fwynhau cefn gwlad Cymru. Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n gweinyddu Tir Gofal mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r gyllideb ar gyfer y cynllun yn £7.5 miliwn yn 2000-01. Un o dargedau'r Cyngor yw cyflawni isafswm o 600 o gytundebau Tir Gofal o'r cylch cyntaf o geisiadau. Bydd yr astudiaeth yn adolygu'r ffordd y caiff Tir Gofal ei weithredu a'i effaith gychwynnol.

**4. Y Cynllun Iawndal Defaid**

Yn dilyn damwain Chernobyl ym 1986, a'r llygredd ymbelydrol yn sgîl hynny i rannau o Ogledd Cymru, cynhaliwyd gwaith monitro parhaus ar ddefaid er budd diogelwch bwyd. Amcan y cynllun hwn yw digolledu ffermwyr am waith sy'n gysylltiedig â'r monitro hwn. Ar ddiwedd 1998, roedd cyfyngiadau yn effeithio ar tua 360 o ddaliadau fferm neu rannau o ddaliadau a hyd at yr adeg hynny talwyd £9.4 miliwn mewn iawndal. Bydd gwariant ym 1999-2000 yn dod i gyfanswm o tua £700,000 gyda gwaith gwyddonol cysylltiedig yn costio swm tebyg. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar reoli a gweithredu'r Cynllun.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2003-2004 a blynyddoedd wedi hynny*

**5. Cynllun Taliadau Ardal Âr**

Mae'r Cynllun Taliadau Ardal Âr yn digolledu tyfwyr grawnfwyd, hadau olew a chnydau protein am golli incwm o ganlyniad i ostwng prisiau cymorth. Mae un elfen o'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr neilltuo canran penodedig o dir, ac am hynny maent yn derbyn iawndal. Mae'r gwariant ar y cynllun hwn yng Nghymru yn debygol o ddod i gyfanswm o tua £10 miliwn yn ystod 2000-01. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar ansawdd gweinyddu'r cynllun yng Nghymru.

**6. Arolwg Tir Mynydd**

Sefydlwyd Tir Mynydd i olynu'r Lwfansau Iawndal Da Byw Mynydd (cyllideb o £27 miliwn yn 2000-01). O dan Tir Mynydd, bydd taliadau yn seiliedig ar arwynebedd tir yn hytrach na nifer y gwartheg a defaid mynydd. Disgwylir i'r taliadau cyntaf o dan y cynllun gael eu gwneud yn ystod gwanwyn 2001. Gan y bydd rhai ffermwyr yn elwa ar draul eraill, mae'r Cynulliad yn bwriadu sefydlu trefniadau i liniaru effaith y trawsnewid yn y blynyddoedd cynnar.

## Llywodraeth Leol a Thai

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn wedi hynny*

**1. Tai Cymru**

Ym mis Hydref 1998, diddymwyd Tai Cymru, un o gyrff cyhoeddus anadrannol y Swyddfa Gymreig, a throsglwyddwyd ei weithgareddau, fel monitro Cymdeithasau Tai, i fod o dan ofal Is-adran Tai y Swyddfa

Gymreig - y Cynulliad erbyn hyn. Bydd yr astudiaeth yn adolygu llwyddiant y trefniadau newydd.

**2. Trosglwyddo stoc tai cyngor**

Mae’r Cynulliad yn amcangyfrif bod ôl-groniad o waith atgyweirio a moderneiddio hanfodol ar dai cyngor yng Nghymru sy’n werth £750m. Bydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn cynnal arolwg o’r broses o drosglwyddo stoc tai dros y misoedd nesaf. Bydd yr arolwg yn ystyried y polisi ar drosglwyddo stoc tai awdurdodau lleol i berchenogaeth gymunedol fel ffordd o ysgogi’r buddsoddiad sydd ei angen. Byddai’r astudiaeth yn ystyried canlyniadau’r arolwg hwn a llwyddiant unrhyw drosglwyddiadau o’r fath wrth leihau’r baich ar gynghorau lleol a’r Cynulliad.

## Gweinyddu’r Cynulliad

*Gwaith yr ymgymerir ag ef o bosibl yn y flwyddyn ariannol 2001-2002*

**1. Arolwg o strategaeth TG a threfniadau caffael y Cynulliad**

Mae’r Cynulliad yn gwario tua £10 miliwn y flwyddyn ar systemau gwybodaeth cyfrifiadurol, y mae tua’r cyfan ohono yn ymwneud â’r contract PFI ar gyfer ei system craidd OSIRIS. Mae’r contract OSIRIS yn gontract saith mlynedd o 1998-99. Mae’r Cynulliad hefyd yn gweithredu nifer o systemau eraill sy’n cynnal amrywiaeth o brosesau gweinyddol ac sy’n rhyngwynebu ag asiantaethau allanol. Byddai’r astudiaeth arfaethedig yn adolygu gwaith y Cynulliad wrth reoli’r contract PFI OSIRIS a’r perfformiad gan y prif gontractwr (Siemens) wrth ddatblygu a gweithredu’r system tua hanner ffordd drwy’r contract. Byddai hyn yn cynnwys archwilio pa fanteision sy’n cael eu gwireddu o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy systemau TG y Cynulliad.

*Pynciau posibl i’w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn wedi hynny*

**2. Systemau rheoli perfformiad y Cynulliad**

Mae’r Cynulliad yn gyfrifol am amrywiaeth o is-gyrff: asiantaethau gweithredol (fel Cadw), a chyrff a noddir gan y Cynulliad (fel Bwrdd Croeso Cymru). Bydd yr astudiaeth yn archwilio a yw’r trefniadau sydd wedi’u sefydlu i oruchwylio is-gyrff yn taro cydbwysedd rhwng rheolaeth gan y Cynulliad ar y naill law a rhyddid i weithredu gan y cyrff ar y llall.

**3. Y Llywodraeth ar y we yng Nghymru**

Mae’r Cynulliad wedi manteisio ar y cyfle i geisio cynyddu ei ddefnydd o dechnoleg y rhyngrwyd. Bydd yr astudiaeth yn cymhwyso canfyddiadau astudiaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym 1999 i ddefnydd y llywodraeth o’r dechnoleg hon i asesu’r cynnydd a wnaed yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn cynnwys cyrff a noddir gan y Cynulliad a bydd yn cynnwys dadansoddiad o’r graddau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflwyno’n electronig.

## Atodiad B

# Archwiliadau Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy’n cael eu cynnal ar hyn o bryd ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae’r Atodiad hwn yn crynhoi cwmpas yr archwiliadau gwerth am arian parhaus sy’n cael eu cynnal gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2000-2001.

## Trin ceisiadau esgeulustod clinigol

Ym mis Mawrth 2000 roedd cyfanswm gwerth ceisiadau esgeulustod clinigol yn erbyn yr NHS yng Nghymru yn fwy na £400 miliwn. Cyflwynwyd newidiadau diweddar yn y system gyfreithiol, wedi’u hanelu at annog trin y ceisiadau hyn yn fwy effeithlon. Mae’r astudiaeth hon yn archwilio’r gwaith o reoli’r broses o drin ceisiadau esgeulustod clinigol ac yn ceisio nodi gwelliannau. Bwriedir cyflwyno’r adroddiad i’r Cynulliad ar ddechrau 2001.

## Rheoli ystâd yr NHS yng Nghymru

Mae’r NHS yng Nghymru yn meddiannu ystâd ag arwynebedd o tua 1,100 hectar, gyda gwerth defnydd presennol o tua £1.1 biliwn. Mae tua 140 o ysbytai, 300 o ganolfannau iechyd a chlinigau, a 80 o orsafoedd ambiwlans. Mae rheoli’r asedau ystâd hyn yn her sylweddol i’r NHS yng Nghymru ac i’r Cynulliad. Mae’r astudiaeth yn archwilio rheolaeth strategol a gweithredol yr ystâd, gan gynnwys cael gwared ar asedau eiddo gormodol. Bwriedir cyflwyno’r adroddiad i’r Cynulliad cyn diwedd mis Mawrth 2001.

## Rhagnodi cyffuriau

Mae’r astudiaeth yn ystyried sut mae’r broses rhagnodi bresennol a’i fframwaith rheoli cysylltiedig yn gweithredu i sicrhau y ceir yr incwm mwyaf posibl o daliadau rhagnodi. Mae’r astudiaeth yn archwilio cymhwyster sampl o gleifion sy’n gwneud cais am ragnodiadau am ddim a’r incwm a allai gael ei golli i’r NHS o geisiadau annilys. Bwriedir i’r astudiaeth gael ei chyflwyno i’r Cynulliad ym mis Rhagfyr.

## Rheoli’r Ystâd Addysg Bellach yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae’r sector addysg bellach (AB) yng Nghymru yn cynnwys 27 o sefydliadau. Mae ganddynt ystâd ag arwynebedd mewnol gros o 584,500 o fetrau sgwâr a chost ailadeiladu cyfredol o tua £584.5 miliwn. Mae’r adeiladau ar draws y sector yn gymysgedd o adeiladau modern, 1950au/60au a chyn-rhyfel/oes Fictoria ac felly yn amrywiol o ran ansawdd ac addasrwydd i’w defnyddio. Mae’r astudiaeth yn archwilio pa mor dda mae’r sector yn rheoli ei ystâd, pa mor addas yw’r ystâd AB at ei ddiben a pha mor dda y defnyddir yr ystâd AB. Bydd yr astudiaeth hon yn darparu cymhariaeth ddiddorol â’r astudiaeth sy’n cael ei chynnal ar hyn o bryd ar ystâd yr NHS yng Nghymru a bydd yn dangos i’r Cynulliad sut mae gwahanol feysydd o’r sector cyhoeddus yn ymdopi â’r mater hwn. Bwriedir i’r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2001.

## Gweinyddu Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd

Yn dilyn dyfarnu arian "amcan un" yr Undeb Ewropeaidd i rannau o Gymru, gallai'r wlad elwa ar gynnydd mewn gwariant cyhoeddus o tua £1.3 biliwn dros y saith mlynedd nesaf. Felly mae pwysau sylweddol ar y Cynulliad i sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r arian hwn. Bydd yr astudiaeth yn ystyried y ffordd y gweinyddwyd haenau blaenorol o arian strwythurol yng Nghymru, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen amcan un.

## Dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben

Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ym 1987 i adfywio ymron i 1,100 hectar o Dde Caerdydd gan roi'r ddinas ymhlith dinasoedd morwrol cyfatebol gorau'r byd. Ym mis Gorffennaf 1997, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y byddai'r Gorfforaeth yn dirwyn i ben erbyn 31 Mawrth 2000. Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar: rheoli'r broses dirwyn i ben; y trefniadau trosglwyddo; a gweithrediad y sefydliadau dilynol.

## Y cymorth a roddir i'r project LG

Project mewnfuddsoddi gan y gr•p o gwmnïau Korean LG yw'r project LG i sefydlu dau waith ar wahân ym Mharc Imperial, Casnewydd i weithgynhyrchu cydrannau electroneg a lled-ddargludyddion. Yn wreiddiol bwriad gr•p LG oedd cyflwyno buddsoddiadau cyfalaf o tua £1.6 biliwn yn raddol dros y chwe blynedd o 1996 i 2001 i ddatblygu'r ddau waith a chreu dros 6,000 o swyddi fel canlyniad uniongyrchol. Ategir y project gan becyn o gymorth a ariennir yn gyhoeddus werth hyd at £247 miliwn, wedi'i ariannu o gyllidebau'r Cynulliad (a'r Swyddfa Gymreig gynt), Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Hyfforddiant a Menter Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd. Mae'r archwiliad, a gynhelir ar gais y Pwyllgor Archwilio, yn arolwg o'r cymorth a ariennir yn gyhoeddus a ddarparwyd hyd yn hyn i gynnal y project LG.

## Digartrefedd

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i roi cartref i bobl sy'n gymwys i gael cymorth, sy'n ddigartref yn anfwriadol ac sy'n haeddu blaenoriaeth, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Tai 1996. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd â phlant dibynnol, mamau beichiog, yr henoed, yr anabl, pobl â salwch meddwl a chyn-droseddwyr. Bydd ein hastudiaeth yn canolbwyntio ar fentrau i liniaru digartrefedd i'r bobl hynny nad ydynt yn derbyn cymorth o'r fath, yn bennaf y grantiau a delir i sefydliadau gwirfoddol gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 180 Deddf Tai 1996. Daw'r grantiau hyn i gyfanswm o £1.85 miliwn y flwyddyn ac maent yn darparu arian ar gyfer amrywiaeth o brojectau, gan gynnwys hostelau, cymorth a chyngor adsefydlu, a chynlluniau gwarantu blaendal rhent.

## Trefniadau adeiladau'r Cynulliad

Mae'r astudiaeth, y gofynnwyd amdani yn benodol gan y Pwyllgor Archwilio, yn cwmpasu'r penderfyniad i leoli'r Cynulliad ym Mae Caerdydd, y cytundebau a drafodwyd â Grosvenor Waterside i gaffael y safle, y trefniadau ar gyfer rheoli'r project, y gwaith o addasu T• Crughywel a'r Adeilad Pierhead i'r Cynulliad, a'r adeilad newydd. Mae'r astudiaeth yn archwilio cyfanswm cost y project a'r rhesymau dros yr oedi o ran yr adeilad newydd. Mae'r adroddiad yn cael ei drafod ar hyn o bryd gyda'r partïon sydd â diddordeb a chaiff ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Tachwedd.